CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: Y PWYLLGOR ARCHWILIO

**ADRODDIAD 01-01 – Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Chwefror yn unol ag adran 102(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**

# MORGLAWDD BAE CAERDYDD

CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Cost y prosiect i adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw | 6 |
| Costau a manteision | 7 |
| Perfformiad cyffredinol a ffactorau a gyfrannodd at y cynnydd mewn costau | 10 |
| Gwersi a ddysgwyd | 16 |
| Rhoi'r Morglawdd ar waith a'r trefniadau olynu a wnaed ar gyfer y Morglawdd a'r Bae yn dilyn dirwyn y Gorfforaeth Ddatblygu i ben | 19 |
| Trefniadau olynu | 22 |
| Materion allweddol yn ymwneud â rheoli'r Morglawdd a'r Bae yn y dyfodol | 32 |
| Y trefniadau ar gyfer nodi a rheoli'r rhwymedigaethau a'r gofynion amgylcheddol a allai godi | 37 |
| Crynodeb o'r canfyddiadau a'r casgliadau | 48 |
| Crynodeb o'r argymhellion | 49 |
| Casgliad | 50 |


ATODIADAU


| | |
|---|---|
| Atodiad A: | Trafodion Perthnasol o'r Pwyllgor – Cofnodion Tystiolaeth (Dydd Iau 13 Gorffennaf 2000) |
| Atodiad B: | Llythyr dyddiedig 12 Awst 2000 oddi wrth Jon Shortridge, yr Ysgrifennydd Parhaol, yn darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2000 |
| Atodiad C: | Llythyr dyddiedig 11 Awst 2000 oddi wrth Roger Thomas, Cyfarwyddwr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cynnwys sylwadau ar rywfaint o'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2000 |
| Atodiad CH: | Y Pwyllgor Archwilio |

**CYFLWYNIAD**

1. Mae’r adroddiad hwn yn ymwneud â chynnydd y prosiect i adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd sy’n ymestyn o Benarth i Ddoc y Frenhines Alexandra yng Nghaerdydd ac i greu llyn dŵr croyw dau gan hectar ym Mae Caerdydd. Roedd y prosiect hwn yn ganolbwynt i waith Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn adfywio ardal y Bae. Dechreuodd y gwaith ar y prosiect ym mis Mai 1994 ac erbyn 31 Mawrth 2000, pan gafodd y Gorfforaeth Ddatblygu ei dirwyn i ben, roedd rhan sylweddol o’r Morglawdd yn gyflawn a’r nod oedd cronni dŵr croyw a chreu’r llyn dŵr croyw erbyn mis Mawrth 2001. Yn ystod y cyfnod hwn cynyddodd cost amcangyfrifedig cyffredinol y prosiect o £191 miliwn ym mis Mawrth 1995 i £220 miliwn ym mis Mawrth 2000.

2. Ar sail yr adroddiad a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru[1], cymerwyd tystiolaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Michael Boyce, cyn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Hoffem nodi’n swyddogol ein diolch i Mr Boyce am roi tystiolaeth i’r Pwyllgor a’n gwerthfawrogiad o’r cymorth a roddodd inni.

3. Mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar dri phrif fater yn deillio o’n harchwiliad:

- cost y prosiect i adeiladu’r Morglawdd a chreu’r llyn dŵr croyw;

- rhoi’r Morglawdd ar waith a’r trefniadau olynu a wnaed ar gyfer y Morglawdd a’r Bae yn dilyn dirwyn y Gorfforaeth Ddatblygu i ben; a

- y trefniadau sydd ar waith i nodi a rheoli’r cyfrifoldebau a’r rhwymedigaethau amgylcheddol posibl a fyddai’n dod yn sgil cwblhau’r Morglawdd a chreu’r llyn dŵr croyw.

4. Mae’r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau a’n casgliadau ynghyd â nifer o argymhellion. Mae ein prif gasgliadau ac argymhellion wedi eu nodi mewn print trwm. Gobeithiwn y bydd ein hargymhellion yn helpu’r Cynulliad i wella ei orolwg ar brosiectau adeiladu mawr a datblygu trefniadau cadarn ar gyfer mynd i’r afael â’r cyfrifoldebau a’r rhwymedigaethau amgylcheddol posibl sy’n gysylltiedig â chreu’r llyn dŵr croyw ym Mae Caerdydd.

5. Bydd ail gyfle hefyd i’r Pwyllgor ystyried datblygiadau ar nifer o’r materion hyn. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn archwilio’r trefniadau a wnaed i ddirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd[2] i ben. Bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ganlyniad yr archwiliad.

---

[1] Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru *Morglawdd Bae Caerdydd*, a gyflwynwyd i’r Cynulliad Cenedlaethol ar 5 Gorffennaf 2000

[2] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.15

**Cost y prosiect i adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw**

6. Adroddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru bod cost gyffredinol adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw ym Mae Caerdydd wedi cynyddu. Ym mis Mawrth 1995, pennodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gap o £191 miliwn ar gyfer cyfanswm cost y prosiect[3]. Ar y pryd, roedd y Gorfforaeth Ddatblygu yn rhagweld y byddai cyfanswm y gost tua £199 miliwn, ac o ganlyniad roedd yn rhaid iddi ddod o hyd i arbedion o tua £8 miliwn i gadw o fewn amcangyfrif yr Ysgrifennydd Gwladol[4]. Ym mis Mawrth 1999, cododd yr Ysgrifennydd Gwladol y cap ar y prosiect i £197 miliwn (ffigur a oedd yn eithrio darpariaeth o £6.5 miliwn ar gyfer treuliau annisgwyl, ac na chafodd ei gyhoeddi gan ei fod yn wybodaeth gyfrinachol fasnachol)[5]. Ar 28 Mawrth 2000, yn dilyn y setliad terfynol gyda Balfour Beatty-Costain, y contractwyr a oedd yn gyfrifol am adeiladu'r Morglawdd, cyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd gynnydd pellach yn y cap ar y prosiect i £213.4 miliwn[6]. Ar hyn o bryd yr amcangyfrif gorau ar gyfer alldro terfynol y prosiect yn gyfan yw £220 miliwn, cynnydd o 15 y cant ar y cap ariannol cychwynnol ar gyfer y prosiect a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol[7].

**Costau a manteision**

7. Croesawn y ffaith fod swyddogion y Cynulliad wedi ein sicrhau bod yr alldro arfaethedig presennol o £220 miliwn ar gyfer y prosiect yn gyfan yn amcangyfrif mwy cadarn na'r rhai a roddwyd yn gynharach oherwydd bod y rhan fwyaf o'r costau wedi eu talu ac nad oes llawer o ansicrwydd bellach a allai effeithio ar y gost derfynol[8]. Yn y cyd-destun hwn, nodwn sicrhad yr Ysgrifennydd Parhaol bod y Cynulliad yn gweithio tuag at y ffigur hwn o £220 miliwn a'i obaith y caiff hyn ei gyflawni[9]. Disgwyliwn i'r Cynulliad gadw llygad manwl ar weddill y gwaith sydd ei angen i orffen adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw, gan sicrhau na fydd mwy na'r amcangyfrif cyffredinol presennol o £220 miliwn yn cael ei wario. Disgwyliwn hefyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru fonitro gweddill y gwaith ar y prosiect hwn a dwyn unrhyw bryderon a fydd ganddo i sylw'r Pwyllgor hwn.

8. Dywedwyd wrthym y dylai cost gyffredinol y prosiect gael ei gydbwyso yn erbyn y manteision a allai ddeillio o wneud Caerdydd yn ddinas glan dŵr o bwys. Nodwn fod y Gorfforaeth Ddatblygu wedi cyfrifo, yn fuan cyn iddi ddirwyn i ben, bod lleiafswm o £170 miliwn yn dychwelyd i'r pwrs cyhoeddus o ganlyniad i refeniw treth uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i ddatblygiadau ym Mae Caerdydd[10]. Manylodd Mr Boyce ar y ddadl hon yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor. Dywedodd fod y Gorfforaeth, wrth gyrraedd y ffigur o £170 miliwn, wedi tan-amcangyfrif yn fwriadol oherwydd ei fod yn gwybod y byddai'r ffigur yn destun dadansoddiad beirniadol[11]. Dywedodd hefyd fod cost y

[3] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 2.3 a C12
[4] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 2.4 a C13
[5] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 2.9
[6] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 2.10
[7] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 2.19 a C18
[8] C19
[9] C20
[10] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 1.9
[11] C9

Morglawdd bron wedi ei had-dalu gan fewnfuddsoddiad unigol o £200 miliwn i'r Bae gan Nippon Electric Glass Company Limited[12]. Roedd y cwmni wedi ystyried lleoliadau ledled Ewrop ar gyfer y buddsoddiad hwn, a dewisodd Gaerdydd oherwydd bod Bae Caerdydd fel cynnyrch wedi gwneud gwahaniaeth. Yn ganolog i'r cynnyrch hwn yr oedd y Morglawdd, a oedd yn galluogi Caerdydd i fod yn ddinas glan dŵr o bwys[13].

9. Credwn fod y ddadl hon yn dangos ystyriaeth hanfodol o werth am arian sydd yn fwy sylfaenol ac yn fwy eang na materion yn ymwneud â rheoli'r prosiect a rheolaeth ariannol. Mae hyn yn ymwneud ag effaith economaidd ehangach y datblygiadau ym Mae Caerdydd. O ystyried cyfanswm yr arian cyhoeddus sydd eisoes wedi ei fuddsoddi ym Mae Caerdydd a maint y gefnogaeth y bydd y Cynulliad yn parhau i'w ddarparu, credwn y dylid dweud yn glir wrth Aelodau'r Cynulliad am y manteision economaidd llawn sydd wedi dod yn sgil y buddsoddiad. Credwn hefyd y dylai'r dadansoddiad hwn ddarparu meincnod y gall y Cynulliad ei ddefnyddio i fesur effaith datblygiadau yn y Bae yn y dyfodol. Argymhellwn y dylai'r Cynulliad roi blaenoriaeth i gomisiynu arfarniad economaidd o ddatblygiadau ym Mae Caerdydd, gan gynnwys effaith y Morglawdd a'r llyn dŵr croyw, gan ddefnyddio'r gwaith a wnaethpwyd eisoes gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd lle bo hynny'n briodol.

**Perfformiad cyffredinol a ffactorau a gyfrannodd at y cynnydd mewn costau**

10. Nodai adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol natur gymhleth y prosiect hwn a disgrifiai'r amodau ffisegol anodd ac ansicr yr oedd yn rhaid i'r Gorfforaeth a'i chontractwyr weithio oddi tanynt wrth adeiladu'r Morglawdd. Nodai ei adroddiad hefyd fod y Prif Ysgrifennydd wedi dweud, er bod cyfyngu'r codiad mewn costau o dan yr amgylchiadau hynny wedi bod yn gryn gamp, y byddai rhywfaint o siom er hynny oherwydd y cynnydd mewn costau o amcangyfrif o £191 miliwn ym 1995 i £220 miliwn yn 2000, sef gorwariant o tua 15 y cant ar gostau [14].

11. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cefnogi'n llwyr sylw'r Ysgrifennydd Parhaol ei fod yn disgwyl i'r prosiectau gael eu rheoli'n briodol ac y byddant yn cadw o fewn eu cyllideb[15]. Rydym yn cydnabod bod hyn yn darged sy'n gosod her yn enwedig i brosiectau adeiladu cymhleth a nodwn fod Cyfarwyddiaeth Briffyrdd y Cynulliad yn ceisio cadw costau alldro o fewn 15 y cant o'r gyllideb[16]. Disgwyliwn i'r Cynulliad sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith ar gyfer pob un o'r prosiectau cyfalaf mawr y mae'n eu goruchwylio. Disgwyliwn hefyd i'r Cynulliad gadw llygad barcud ar y gwaith er mwyn sicrhau bod pob un o'r prosiectau cyfalaf mawr yn cael eu cwblhau mewn pryd ac o fewn y gyllideb.

12. Ym marn y Pwyllgor, pwysleisir pwysigrwydd y pwynt hwn yn y modd yr ymdriniwyd â'r ffactorau a gyfrannodd at y cynnydd yn y costau a'r gorwario yn y pen draw. Nid oedd y Pwyllgor wedi ei argyhoeddi'n llwyr gan yr eglurhad a roddwyd ynghylch y ffactorau hyn.

[12] C10
[13] C10 ac 11
[14] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraffau 8 ac 1.8
[15] C28
[16] C28

13. Yn amlwg roedd peth o'r cynnydd yn y costau yn ganlyniad i ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y Gorfforaeth Ddatblygu, y Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad wedi hynny. Mae hyn yn wir er enghraifft am y gwaith o adeiladu Gwarchodfa Gwlyptir Gwastadeddau Gwent. Oherwydd bod y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer gwarchodfa wedi cael eu gwrthod, roedd yn rhaid i'r Gorfforaeth sefydlu cynllun gwahanol mewn lleoliad gwahanol. Effaith hyn yn y pen draw oedd cynyddu cost yr agwedd hon ar y prosiect o £5.7 miliwn i £10.4 miliwn[17]. Roedd y ffactorau eraill a gyfrannodd at y cynnydd yn y costau yn haws eu rhagweld, yn enwedig y peryglon yn deillio o gyflwr y tir ym Mae Caerdydd[18] a chanlyniadau gwneud newidiadau i gynllun y Morglawdd ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau (er enghraifft y penderfyniad i oedi ar y trydydd loc, ac yna adfer y gwaith arno)[19].

14. Ym marn y Pwyllgor, mae hyn oll yn atgyfnerthu'r pryderon a fynegwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch ymdrin â'r ddarpariaeth ar gyfer chwyddiant a chostau annisgwyl ar y prosiect[20]. Cymeradwywn gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol y dylai'r Cynulliad sicrhau y trefnir darpariaeth realistig ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr i ymdrin â sefyllfaoedd a allai godi, ac y dylai'r Cynulliad hefyd sicrhau bod atebolrwydd clir dros reoli a defnyddio'r ddarpariaeth hon yn y prosiectau hynny y mae'n eu goruchwylio ond nad yw'n eu rheoli'n uniongyrchol. Cytunwn hefyd y dylai'r Cynulliad ystyried a fyddai modd creu rhyw fath o gymhelliant i'r corff o dan sylw gadw at y ddarpariaeth honno**.**

15. Fel y nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, un ffactor a oedd yn rhan o ffrwyno costau adeiladu'r Morglawdd oedd cynnwys cymalau cymhelliant yn y contractau gyda Balfour Beatty-Costain a chyda Bechtel, y rheolwyr prosiect a benodwyd gan y Gorfforaeth ar gyfer adeiladu'r Morglawdd. O dan y cymalau cymhelliant hyn, roedd Balfour Beatty-Costain yn gallu rhannu manteision unrhyw arbedion cost a nodwyd ganddynt[21]. Hefyd, disgrifiodd Mr Boyce wrth y Pwyllgor y trefniadau ar gyfer gwobrwyo Bechtel am eu cyfraniad hwy at gyflawni'r prosiect[22]. Nodwyd dadl Mr Boyce bod y sector cyhoeddus wedi elwa o berfformiad Bechtel a sylw'r Ysgrifennydd Parhaol ei fod yn cefnogi'n llawn drefniadau i gynnig cymhelliant mewn contractau cyhoeddus pwysig[23]. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod lle i drefniadau cymell mewn contractau cyhoeddus mawr a lunnir gan y Cynulliad. Fodd bynnag, cred y Pwyllgor ei bod yn holl bwysig bod y trefniadau hynny'n dryloyw a'i bod yn gwbl amlwg eu bod yn rhoi'r gwerth gorau i'r Cynulliad.

### Gwersi a ddysgwyd

16. Mae Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, yn ddefnyddiol iawn, yn sôn am y gwersi y gellir eu dysgu at y dyfodol yn seiliedig ar y modd yr ymdriniwyd â'r prosiect i adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw[24]. Ategwyd y rhain gan y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym. Yn y cyd-destun hwn, nodwn yn benodol y pwyntiau canlynol:

[17] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 2.12 a C34
[18] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 2.12 a C32
[19] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 25 a C34 a 35
[20] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 10
[21] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 2.12
[22] C38
[23] C40, 41
[24] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 2.20

Yn y dyfodol, pe byddai'r Cynulliad yn ymgymryd â phrosiect ar raddfa a chymhlethdod tebyg, byddai angen asiantaeth arall, heblaw'r Cynulliad, i'w reoli a'i weithredu. Mater i'r Cynulliad fyddai penderfynu a ddylai'r asiantaeth hon fod yn gorff a noddir neu'n awdurdod lleol. Pa bynnag benderfyniad a wneid, y Cynulliad fyddai'n cyllido'r prosiect a byddai angen iddo sicrhau bod y trefniadau priodol ar waith i reoli'r prosiect[25]. Mae'r ymagwedd a ddefnyddiwyd ar gyfer y Morglawdd yn fodel defnyddiol.

Roedd gosod cap ar gost gyffredinol y prosiect i adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw a'r ddisgyblaeth ariannol a oedd yn gysylltiedig â hyn yn cyfleu neges gryf iawn i'r Gorfforaeth a'i chontractwyr bod y prosiect yn un cadarn a fyddai'n cael ei gyflawni o fewn y terfyn costau[26].

Pan fydd y sector cyhoeddus yn gwneud buddsoddiadau mawr o'r math hwn, dylai wneud popeth o fewn ei allu i drosglwyddo cymaint o'r risg ag sy'n bosibl i'r sector preifat. I'r graddau nad yw'n bosibl i'r sector cyhoeddus wneud hyn, mae angen iddo fod â threfniadau ar waith i reoli risg, yn yr un modd ag y gwnaeth y Gorfforaeth trwy benodi Bechtel Limited yn rheolwyr y prosiect[27].

Roedd sefydlu ymdeimlad o ymagwedd tîm, cynhwysol at y prosiect yn ffactor pwysig yn ei lwyddiant. Roedd y tîm yn cynnwys staff ac aelodau Bwrdd y Gorfforaeth, yn ogystal â'i gontractwyr a'i ymgynghorwyr a'r Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad wedi hynny[28].

17. Cymeradwywn y gwersi a ddysgwyd hyd yma yn sgil y prosiect i adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw ac argymhellwn y dylai'r Cynulliad ystyried y gwersi hynny wrth wneud trefniadau rheoli ar gyfer prosiectau eraill y buddsoddir cryn dipyn o arian cyhoeddus ynddynt.

18. Yn olaf, yn y cyd-destun hwn, credwn fod gwers ehangach i'w dysgu o ran cyfrifoldeb y Cynulliad mewn penderfyniadau ar brosiectau pwysig o'r math hwn. Gofynnwyd sut y gall y Cynulliad sicrhau y bydd yn enyn manteision o'r math hwn o fuddsoddiad, y gall wedyn eu hailgyfeirio i rannau eraill o Gymru pan fydd yn wynebu penderfyniadau o'r math hwn yn y dyfodol[29]. Ategwn sylw'r Ysgrifennydd Parhaol fod angen, wrth ymgymryd â phrosiectau o'r math hwn, achos busnes cadarn sy'n edrych ar yr amcangyfrifon gorau o'r costau a'r manteision i weld a fydd yn rhoi cyfradd elw rhesymol[30]. Cytunwn y bydd y Cynulliad am lunio barn ynghylch cynlluniau cyfalaf mawr ac wrth iddo lunio'r farn honno, cytunwn hefyd y byddai angen cael gwybod am yr achos busnes a baratowyd ac a gyflwynwyd i'r Aelodau er mwyn i'r Cynulliad allu dod ynghyd i ystyried y materion ehangach a nodwyd gan y Pwyllgor[31].

---

[25] C47
[26] C23, C45
[27] C23
[28] C45
[29] C44
[30] C44
[31] C44

**Rhoi’r Morglawdd ar waith a’r trefniadau olynu a wnaed ar gyfer y Morglawdd a’r Bae yn dilyn dirwyn y Gorfforaeth Ddatblygu i ben.**

19. Y dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer creu’r llyn dŵr croyw ym Mae Caerdydd oedd mis Awst 1998. Erbyn dechrau mis Tachwedd 1999 roedd rhan sylweddol o adeiledd y Morglawdd yn gyflawn ac ar 4 Tachwedd 1999, llwyddwyd i gronni dŵr y môr yn y Bae o dan amodau trwydded cronni dros dro a roddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae’r gwaith ar yr agweddau eraill o’r prosiect, yn benodol mewn perthynas â materion ansawdd dŵr, yn parhau, gyda’r nod o greu llyn dŵr croyw erbyn mis Mawrth 2001. Yn dilyn dirwyn y Gorfforaeth Ddatblygu i ben ar 31 Mawrth 2000, derbyniodd Cyngor Caerdydd gyfrifoldeb am weithredu, cynnal a chadw a rheoli’r Morglawdd a’r Bae. Awdurdod Harbwr newydd, sy’n rhan o’r Cyngor Sir, sy’n gyfrifol am wneud y gwaith angenrheidiol[32].

20. O ystyried hyn, credwn fod cyfrifoldeb ar y Cynulliad i sicrhau bod y prosiect i adeiladu’r Morglawdd a chreu’r llyn dŵr croyw, y mae’r Cynulliad mewn gwirionedd wedi eu hetifeddu, yn cael ei gwblhau’n foddhaol ac yn y modd mwyaf cost effeithiol[33]. Rydym yn ategu’n benodol y farn bod cyfrifoldeb penodol ar swyddogion, ac yn fwy cyffredinol ar y Cynulliad, yn ystod y cyfnod hwn o drosglwyddo, wedi cwblhau’r prosiect a throsglwyddo rheolaeth y Morglawdd a’r Bae i’r Cyngor Sir, i sicrhau nad yw safon yr oruchwyliaeth yn gostwng a bod gan y Cynulliad systemau ar waith i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gwblhau a’i reoli’n foddhaol wedi hynny[34].

21. Yn y cyd-destun hwn, archwiliodd y Pwyllgor y penderfyniadau allweddol yn ymwneud â’r trefniadau olynu a roddwyd ar waith ar gyfer rheoli a gweithredu’r Morglawdd a’r Bae. Nododd y Pwyllgor rai materion allweddol hefyd ar gyfer rheoli’r Bae a’r Morglawdd yn y dyfodol.

**Trefniadau Olynu**

22. Wrth archwilio’r trefniadau olynu a wnaed ar gyfer y Bae a’r Morglawdd yn dilyn dirwyn y Gorfforaeth Ddatblygu i ben, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i dri phenderfyniad gwahanol ond cysylltiedig, sef:

- y penderfyniad i roi cyfrifoldeb i Gyngor Sir Caerdydd am yr Awdurdod Harbwr newydd;

- y penderfyniad i beidio â pharhau â’r posibilrwydd o gontractio allan i Thames Water ar gyfer y cyfleusterau i reoli’r Bae a’r Morglawdd;

[32] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* Rhan 2
[33] C46
[34] C46

- y penderfyniad i oedi cyn carthu'r Bae a gohirio cronni dŵr croyw yn y Bae hyd fis Mawrth 2001.

23. Nododd y Pwyllgor y digwyddiadau a arweiniodd at y penderfyniad i roi cyfrifoldeb i Gyngor Sir Caerdydd am yr Awdurdod Harbwr. Yn dilyn cyhoeddi'r trefniadau ar gyfer dirwyn y Gorfforaeth Ddatblygu i ben ym mis Mawrth 1999, roedd dewis pellach yn wynebu'r Swyddfa Gymreig, a'r Cynulliad wedi hynny, ynghylch natur yr Awdurdod Harbwr; yn sylfaenol, a ddylai fod yn gorff arall a noddir gan y Cynulliad neu a ddylai gael ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol[35]. Dywedwyd wrthym ar yr adeg honno yn y broses nad oedd Cyngor Sir Caerdydd yn dangos unrhyw ddiddordeb yn y Morglawdd[36]. Yn ystod haf 1999, daeth i sylw'r Cynulliad y gallai fod diddordeb gan y Cyngor mewn cymryd cyfrifoldeb, ac wedi hynny bu cyfnod o gyd-drafod dwys yn ystod diwedd mis Awst a dechrau mis Medi 1999[37]. Arweiniodd hyn at gyhoeddiad ym mis Hydref 1999 yn cadarnhau bod Cyngor Sir Caerdydd wedi cytuno i gymryd cyfrifoldeb am weithredu, cynnal a chadw a rheoli'r Bae a'r Morglawdd ac y byddai Awdurdod yr Harbwr yn rhan o'r Cyngor[38].

24. Yn dilyn hynny llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan y Cynulliad a'r Cyngor Sir ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd[39]. Roedd y memorandwm yn nodi'r egwyddorion a oedd yn ategu'r trefniadau gyda'r Cyngor. Arweiniodd y rhain at y trefniadau perthnasol a wnaed gyda'r Cyngor ar 27 Mawrth 2000[40]. Trosglwyddodd y trefniadau hyn berchnogaeth yr asedau perthnasol a'r cyfrifoldeb am rwymedigaethau (gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod Harbwr) o dan Adran 165 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynllunio 1980 i'r Cyngor[41]. Cyfeirir at y trefniadau hyn fel Cytundebau Adran 165. Mae'r egwyddorion a nodwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth erbyn hyn hefyd yn treiddio i'r cytundeb cyllido â'r Cyngor[42].

25. Yn amlwg, roedd y Cynulliad, y Gorfforaeth a'r Cyngor i gyd yn gweithio i amserlen gaeth iawn er mwyn sefydlu trefniadau olynu ar gyfer y Morglawdd a'r Bae a oedd yn deg i'r Cyngor ond hefyd yn amddiffyn buddiannau'r Cynulliad yn ddigonol. Nodwn, oherwydd bod y Cynulliad wedi etifeddu'r prosiect hwn, nad oedd modd iddo gael gwared ar yr holl risgiau a oedd yn gysylltiedig ag ef drwy ei drosglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd[43], ac o safbwynt y Cyngor, bod terfyn ar yr hyn y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo ei gymryd oddi ar ddwylo'r Cynulliad o ran ei gyfrifoldeb am y prosiect[44]. Bydd gennym ddiddordeb mawr yng nghanlyniadau'r adolygiad o'r trefniadau dirwyn i ben sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd

[35] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 1.13, C89
[36] C82
[37] C84
[38] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraffau 1.13 ac 1.14
[39] C84
[40] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.13
[41] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.3
[42] C75
[43] C112
[44] C116

gan yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cael gweld beth fydd ei asesiad cyffredinol o'r trefniadau a bennwyd gan y Cynulliad a Chyngor Sir Caerdydd.

26. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Forglawdd Bae Caerdydd yn nodi cefndir y gystadleuaeth a weithredwyd gan y Gorfforaeth Ddatblygu i ddewis contractiwr i ddarparu gwasanaeth rheoli cyfleusterau ar gyfer y Morglawdd a'r Bae, a'r ffaith mai Thames Water oedd yr ymgeisydd a ffafriwyd yn sgil y broses hon, a'r penderfyniad yn y pen draw i beidio â bwrw ymlaen â dewis Thames Water. Yn hytrach, daethpwyd i'r casgliad mai Cyngor Sir Caerdydd yn gweithredu ac yn cynnal a chadw'r Morglawdd a'r Bae heb Thames Water fyddai'r dewis mwyaf cost effeithiol. Byddai hyn yn arbed £3 miliwn i'r Cynulliad dros dair blynedd, ffigur a gwestiynwyd gan Thames Water[45], fel y nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

27. Roedd hon yn broses anarferol[46]. Nodasom fod y Cynulliad wedi'i synnu ynghylch canlyniad y broses dendro a chostau contract arfaethedig Thames Water, a'i fod yn pryderu yn eu cylch. Roedd hyn y tu hwnt i derfynau ariannol dirprwyedig y Gorfforaeth ac roedd felly'n dibynnu ar gymeradwyaeth y Cynulliad. Roedd y farchnad wedi'i phrofi a chafwyd y gallai'r gost fod yn uwch na'r hyn yr oedd y Cynulliad yn ei ddisgwyl. Roedd angen ystyried y sefyllfa i weld a oedd yn rhoi'r gwerth gorau am arian.[47] Felly, pan ddywedodd Cyngor Sir Caerdydd yn ystod y trafodaethau ynghylch y trefniadau olynu y gallai ddarparu gwasanaethau tebyg i Thames Water, a hynny'n fwy cost effeithiol, profodd y Cynulliad y sefyllfa'n ofalus ac ystyriodd y ffigurau'n fanwl. Ar sail hynny roedd yn fodlon y gallai'r Cyngor ddarparu'r gwasanaethau hyn ac arbed £1 filiwn y flwyddyn dros dair blynedd ac mae'r Cyngor bellach yn gyhoeddus ac yn gyfreithiol rwym i wneud hynny.[48]

28. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad y byddai Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru'n edrych ar yr holl Gytundebau perthnasol a wnaethpwyd o dan Adran 165 rhwng y Gorfforaeth Ddatblygu a'r cyrff sy'n ei holynu, gan gynnwys Cyngor Sir Caerdydd, fel rhan o'i hadolygiad o'r trefniadau ar gyfer dirwyn y Gorfforaeth Ddatblygu i ben.[49] Bydd gennym ddiddordeb mawr yng nghanlyniadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o Drefniadau Adran 165. Wrth fwrw ymlaen â hyn, credwn ei bod yn hanfodol bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno ar gael yn rhwydd i'r Archwilydd Cyffredinol a disgwyliwn yn arbennig i'r Cynulliad a Chyngor Sir Caerdydd gydweithredu'n llawn â'r Archwilydd Cyffredinol wrth arfer ei hawl i gael mynediad i'r Awdurdod Harbwr.[50]

29. Ar drywydd gwahanol, nodwn hefyd farn y Cynulliad, er y bydd rhywfaint o ymgynghori rhwng y Cynulliad a'r Cyngor Sir, mai mater i'r Cyngor Sir a'r Awdurdod Harbwr fydd penderfynu pa sgiliau ac arbenigedd y bydd eu hangen i reoli'r Morglawdd a'r Bae ac yn arbennig a ddylid cyflogi arbenigwyr mewnol neu ddefnyddio arbenigwyr o'r tu allan oherwydd y manteision gweithredol a'r manteision o ran costau.[51]

---

[45] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraffau 3.10 a 3.15
[46] C74
[47] C74
[48] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.14, C50, 75
[49] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.15
[50] C100
[51] C65, 66, 67

30. Buom hefyd yn ystyried y ffactorau a arweiniodd at benderfynu oedi cyn treillio'r Bae a gohirio cronni'r dŵr croyw hyd fis Mawrth 2001. Nodwn farn yr Ysgrifennydd Parhaol fel Swyddog Cyfrifo y byddai'n well, o bwyso a mesur y peryglon a'r costau isel, gohirio treillio'r Bae ac oedi cyn cronni'r dŵr croyw hyd yn oed ar ôl ystyried costau ychwanegol gwarchod adeiledd y Morglawdd.[52] Amcangyfrifir mai tua £1.1 miliwn fydd y costau ychwanegol hyn.[53]

31. Dywedwyd wrthym bod y gwaith yn mynd rhagddo a bod disgwyl y byddai'r dŵr croyw wedi cronni erbyn mis Ebrill 2001. Roedd peth ansicrwydd o hyd, ac nid oedd modd rhoi sicrwydd pendant i ni ynghylch pob un o'r materion hyn eto.[54] Disgwyliwn i swyddogion y Cynulliad gadw llygad barcud ar y gwaith a wneir tuag at y nod o gronni'r dŵr croyw erbyn mis Ebrill 2001.

**Materion allweddol yn ymwneud â rheoli'r Morglawdd a'r Bae yn y dyfodol**

32. Yn y tymor hwy, croesawn fwriad y Cynulliad i sicrhau y rhoddir pwysau priodol ond adeiladol ar Gyngor Sir Caerdydd a'r Awdurdod Harbwr i barhau i roi gwerth am arian.[55] Credwn fod yr agwedd hon yn gydnaws â'r argymhelliad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y dylai'r Cynulliad sicrhau y bydd rhywbeth tebyg i densiwn cystadleuol yn y trefniadau contractiol sy'n cael eu rhoi ar waith gyda Chyngor Sir Caerdydd.[56]

33. Nodwn fod y Cynulliad yn gwneud trefniadau am bum mlynedd yn y lle cyntaf. Byddai cyfle felly i brofi'r farchnad ymhen pum mlynedd pe bai gan y Cynulliad unrhyw amheuon ynghylch y mater. Mae'r cytundeb hefyd yn golygu bod modd i'r naill ochr neu'r llall ddweud eu bod am derfynu'r trefniadau hyn drwy roi blwyddyn o rybudd. Felly, yn y tymor byr, pe na bai'r Cynulliad yn fodlon bod y trefniadau hyn yn rhoi gwerth am arian, byddai modd ystyried ffyrdd eraill o fwrw ymlaen â'r gwaith.[57]

34. Wrth i'r Cynulliad, yng ngoleuni profiad, feddwl fwyfwy am natur gyffredinol y trefniadau rheoli a roddwyd ar waith ar gyfer y Morglawdd a'r Bae, argymhellwn y dylid parhau i ganolbwyntio ar hyn yn strwythur rheoli'r Cynulliad.[58] Argymhellwn hefyd na ddylai'r Cynulliad ddiystyru dewis cyfundrefn reoli wahanol rywdro yn y dyfodol, megis rheoli'r Bae fel prosiect Menter Cyllid Preifat.[59]

35. Rhagwelir mai cost net gweithredu'r Morglawdd a'r Bae fydd tua £9 miliwn y flwyddyn.[60] Mae hon yn gost sylweddol i'r Cynulliad. Roeddem felly'n croesawu'r sicrwydd a roddwyd y bydd y trefniadau ariannu sy'n cael eu rhoi ar waith ar y cyd â Chyngor Sir

[52] C51
[53] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.18
[54] C62
[55] C51
[56] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.40
[57] C51
[58] C144
[59] C120, 121
[60] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.21, C112

Caerdydd yn golygu y gall y Cynulliad fod yn gwbl sicr mai i dalu costau'n ymwneud â'r Morglawdd a'r Bae yn unig y defnyddir yr arian a roddir i'r Cyngor.[61]

36. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ei adroddiad fod angen i'r Cynulliad sicrhau bod cyfle i'r Bae ar ei newydd wedd greu cymaint ag y bo modd o refeniw.[62] Roeddem yn croesawu'r gydnabyddiaeth a gafwyd y byddai o fudd mawr i'r Cynulliad geisio lleihau costau net rhedeg y Bae. Roeddem hefyd yn croesawu'r sicrwydd a gawsom bod swyddogion yn mynd ati'n adeiladol yn eu trafodaethau â Chyngor Sir Caerdydd i gytuno ar ffyrdd o greu cymaint o refeniw ag y bo modd.[63] Argymhellwn y dylai'r Cynulliad fynd ati i annog Cyngor Sir Caerdydd i ddatblygu mentrau penodol i greu refeniw ychwanegol o Fae Caerdydd.

**Y trefniadau ar gyfer nodi a rheoli'r rhwymedigaethau a'r gofynion amgylcheddol a allai godi**

37. O ystyried yn gyffredinol y rhwymedigaethau a'r gofynion amgylcheddol a allai godi yn sgil adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw, rydym yn cydnabod bod perygl i ni godi bwganod ynghylch sefyllfa'r Cynulliad. Serch hynny, fel y cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol, pe deuai'r gwaethaf, byddai hynny'n golygu cryn dipyn o rwymedigaethau ychwanegol i'r Cynulliad. Ond er y gallai hynny ddigwydd, nid yw'n debygol iawn oherwydd y ffordd yr ymdriniwyd â'r prosiect wrth drafod rhoi'r trefniadau ariannu ar waith.

38. Yn y cyd-destun hwn, buom yn ystyried yn benodol y rhwymedigaethau a'r gofynion amgylcheddol a allai godi yn y meysydd a ganlyn:

diogelwch;

ansawdd dwr;

difrod dŵr daear;

cynlluniau draenio;

y modd y mae Gwarchodfa Gwlyptir Gwastadeddau Gwent yn gwneud iawn am golli'r cynefin a gollwyd yn y Bae.

39. Cyfeirir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol at bryderon ynghylch diogelwch, yn arbennig felly tra bo'r Morglawdd yn gweithredu mewn amgylchedd llanwol.[64] Roedd yn dda gennym glywed bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn pryderu'n neilltuol am agweddau diogelwch a'i fod yn credu y byddai'n dda o beth i'r cyhoedd pe bai'r Morglawdd yn cael ei gwblhau a'r llyn dŵr croyw'n cael ei greu cyn gynted ag y bo modd. Nodwyd bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi bod yn ymwneud gryn dipyn â'r

---

[61] C111
[62] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.40
[63] C111
[64] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.19

trafodaethau manwl a gafwyd ynghylch trosglwyddo'r gwaith o reoli'r Bae yn ei gyflwr presennol i ddwylo Cyngor Sir Caerdydd.[65] Nodwn fod gofal am iechyd a diogelwch yn rhan o drefn reoli'r Awdurdod Harbwr newydd. Croesawn y sicrwydd y rhoddir blaenoriaeth uchel i iechyd a diogelwch.[66]

40. Nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y gallai fod angen buddsoddiad cyfalaf o rhwng £6 miliwn a £7 miliwn er mwyn bodloni gofynion statudol o ran ansawdd dŵr yn y Bae. Y Cynulliad fyddai'n atebol o hyd pe bai mesurau allweddol i ddiogelu ansawdd y dŵr yn methu.[67] Dywedwyd wrthym bod gan Gyngor Sir Caerdydd, fel corff a ymunodd â'r broses yn hwyr, amheuon ynghylch y ffordd o ocsigeneiddio'r Bae a awgrymwyd gan y Gorfforaeth Ddatblygu ac roedd am gael cyfle i ystyried ffyrdd eraill o wneud hynny.[68] Pan glywsom dystiolaeth ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, roedd y Cyngor wedi dechrau tendro am offer awyru a dywedwyd wrthym y byddai canlyniad y broses honno'n rhoi rhyw syniad i ni o ba mor rhesymol oedd yr amcangyfrif o £6 miliwn i £7 miliwn.[69] Bydd yn ddiddorol cael gwybod am ganlyniad ymdrech y Cyngor Sir i brynu offer awyru ac a fydd y trefniadau a roddwyd ar waith yn sgil yr ymdrech honno'n rhoi i ni gyfundrefn gost effeithiol ar gyfer ansawdd dŵr sy'n bodloni gofynion statudol.

41. Yn ei adroddiad, cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at y posibilrwydd y gallai Bae Caerdydd gael ei ystyried yn ddŵr sensitif o dan Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol yr Undeb Ewropeaidd.[70] Cawsom wybod gan yr Ysgrifennydd Parhaol wedi hynny y gallai Asiantaeth yr Amgylchedd argymell y dylai'r Cynulliad ddynodi bod llyn mewndirol Bae Caerdydd yn "Ardal Sensitif" o dan Reoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol 1994 a hynny cyn gynhared â 2001 (yr adolygiad nesaf), er y gallai gymryd hyd 2005. Darparwyd eisoes ar gyfer costau datfaethu, cyn dynodi'r ardal, drwy raglen bum mlynedd gyfredol Dŵr Cymru ar gyfer ansawdd amgylcheddol a bydd y cwmni'n gwneud y gwaith yn y gweithfeydd trin dŵr gwastraff tua diwedd cyfnod y rhaglen. Os dynodir yr ardal yn ffurfiol mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Harbwr yn gyfrifol am dalu costau datfaethu.[71] Nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'n costio tua £4.5 miliwn i wneud hyn.[72]

42. Yng nghyswllt y difrod y gallai dŵr daear ei wneud i eiddo, nodwn fod y Cynulliad yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar y dadansoddiad proffesiynol a gynhaliwyd gan y Gorfforaeth Ddatblygu. Nodwn hefyd y disgwylir y bydd y mesurau a roddwyd ar waith yn ddigonol. Nid ydym yn gwybod hynny i sicrwydd, fodd bynnag, a bydd yn rhaid i'r Cynulliad aros hyd nes y bydd y dŵr croyw wedi cronni er mwyn gweld yr effaith yn llawn.[73]

---

65 C59
66 C60
67 Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraffau 2.16 a 3.24
68 C104
69 C105
70 Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.27
71 Atodiad B
72 Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.27
73 C129

43. Nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y bydd yna rwymedigaeth mewn perthynas â difrod dŵr daear am ugain mlynedd ar ôl cronni.[74] Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi hynny beth yw'r sefyllfa o ran ymestyn y cyfnod o ugain mlynedd ar gyfer diogelu rhag dŵr daear. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod darpariaethau Atodlen 7 Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 yn pennu fframwaith y gyfundrefn diogelu rhag dŵr daear ar gyfer eiddo y gellid effeithio arno. O dan baragraff 3(3) Atodlen 7 Deddf y Morglawdd pennodd y Gorfforaeth y byddai'r gwaith cronni'n cychwyn ar 4 Tachwedd 1999. Mae'r cynllun diogelu rhag dŵr daear bellach yn fater i'r Awdurdod Harbwr. Fodd bynnag, mae modd cyflwyno sylwadau i'r Cynulliad er mwyn iddo wneud rheoliadau (o dan Adran 21(2) Deddf y Morglawdd) i ddiwygio telerau'r cynllun diogelu rhag dŵr daear a nodir yn Atodlen 7. Yn ogystal â hynny, yn unol â Deddf y Morglawdd, mae swyddfa'r Gweinyddwr Cwynion Dŵr Daear Annibynnol yn dal i fodoli ac mae bellach yn adrodd i'r Cynulliad. Mae modd iddi ystyried cwynion ynghylch y mater hwn, ac mae eisoes wedi gwneud hynny.[75]

44. O ran y cynlluniau draenio, roeddem yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd y byddai'r materion contractiol hynny na chawsant eu datrys wrth ddirwyn y Gorfforaeth Ddatblygu i ben bellach yn cael eu datrys ar fyrder.[76] Roeddem hefyd yn croesawu'r sicrwydd bod y Cynulliad yn ffyddiog y bydd modd adfer hyd at £4.3 miliwn oddi wrth Dŵr Cymru o fewn y cyfnod a bennwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.[77]

45. Wrth gyfeirio at Warchodfa Gwlyptir Gwastadeddau Gwent, nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y gallai'r Warchodfa gostio mwy na £10.4 miliwn yn y pen draw.[78] Nodwn y sicrwydd a roddir bod yr amcangyfrif o £10.4 miliwn yn eithaf agos ati ac mai dyna'n fras fydd y swm yn y pen draw.[79] Gofynnwyd hefyd beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd o safbwynt dynodi bod y Warchodfa'n Ardal Gwarchod Arbennig.[80] Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym wedi hynny bod Ardal Gwarchod Arbennig Aber Hafren wedi'i dynodi ym mis Gorffennaf 1995. Cwblhawyd Gwarchodfa Gwlyptir Gwastadeddau Gwent i bob pwrpas yn hydref 1999 a chymerodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru gyfrifoldeb dros reoli'r Warchodfa bryd hynny. Cred Cyngor Cefn Gwlad Cymru y dylid ceisio ennill statws Ardal Gwarchod Arbennig, ochr yn ochr ag Ardal Gwarchod Arbennig estynedig Aber Hafren neu oddi mewn iddi, erbyn y gaeaf 2004-2005.[81]

46. Canfuwyd na fwriedid i'r Warchodfa fod yn gartref newydd i rywogaethau adar a gollodd eu cynefin wrth i'r dŵr gronni yn y Bae, ond y bwriedid yn hytrach iddi fod yn gynefin newydd.[82] Yn wir, canfuwyd bod yr adar hynny a gollodd eu cynefin wedi symud i Aber Rhymni yn hytrach nag i Wastadeddau Gwent. Roedd cyfle o'r newydd felly i rywogaethau eraill ymgartrefu yn y Gwastadeddau.

---

[74] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.30
[75] Atodiad B
[76] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.34 C132, 134
[77] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.35 C135
[78] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.37
[79] C141
[80] Adroddiad ACC *Morglawdd Bae Caerdydd* paragraff 3.38
[81] Atodiad B
[82] C142 a 143

47. O ystyried maint a natur y gofynion amgylcheddol a'r rhwymedigaethau a allai ddod yn sgil adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw, argymhellwn y dylai swyddogion y Cynulliad barhau i ddatblygu a gweithredu dulliau rheoli risg yn effeithiol er mwyn sicrhau y bydd cyn lleied ag y bo modd o alw annisgwyl am arian cyhoeddus.

**Crynodeb o'r canfyddiadau a'r casgliadau**

48. Nodir isod ein prif ganfyddiadau a chasgliadau.

(i) Disgwyliwn i'r Cynulliad gadw llygad manwl ar weddill y gwaith sydd ei angen i orffen adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw, gan sicrhau na fydd mwy na'r amcangyfrif cyffredinol presennol o £220 miliwn yn cael ei wario. Disgwyliwn hefyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru fonitro gweddill y gwaith ar y prosiect hwn a dwyn unrhyw bryderon a fydd ganddo i sylw'r Pwyllgor hwn.

(ii) Disgwyliwn i'r Cynulliad sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith ar gyfer pob un o'r prosiectau cyfalaf mawr y mae'n eu goruchwylio. Disgwyliwn hefyd i'r Cynulliad gadw llygad barcud ar y gwaith er mwyn sicrhau bod pob un o'r prosiectau cyfalaf mawr yn cael eu cwblhau mewn pryd ac o fewn y gyllideb.

(iii) Cymeradwywn gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol y dylai'r Cynulliad sicrhau y trefnir darpariaeth realistig ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr i ymdrin â sefyllfaoedd a allai godi, ac y dylai'r Cynulliad hefyd sicrhau bod atebolrwydd clir dros reoli a defnyddio'r ddarpariaeth hon yn y prosiectau hynny y mae'n eu goruchwylio ond nad yw'n eu rheoli'n uniongyrchol. Cytunwn hefyd y dylai'r Cynulliad ystyried a fyddai modd creu rhyw fath o gymhelliant i'r corff o dan sylw gadw at y ddarpariaeth honno.

(iv) Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod lle i drefniadau cymell mewn contractau cyhoeddus mawr a lunnir gan y Cynulliad. Fodd bynnag, cred y Pwyllgor ei bod yn holl bwysig bod y trefniadau hynny'n dryloyw a'i bod yn gwbl amlwg eu bod yn rhoi'r gwerth gorau i'r Cynulliad.

(v) Cytunwn y bydd y Cynulliad am lunio barn ynghylch cynlluniau cyfalaf mawr ac wrth iddo lunio'r farn honno, cytunwn hefyd y byddai angen cael gwybod am yr achos busnes a baratowyd ac a gyflwynwyd i'r Aelodau er mwyn i'r Cynulliad allu dod ynghyd i ystyried y materion ehangach a nodwyd gan y Pwyllgor.

(vi) Bydd gennym ddiddordeb mawr yng nghanlyniadau'r adolygiad o'r trefniadau dirwyn i ben sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cael gweld beth fydd ei asesiad cyffredinol o'r trefniadau a bennwyd gan y Cynulliad a Chyngor Sir Caerdydd.

(vii) Bydd gennym ddiddordeb mawr yng nghanlyniadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o Drefniadau Adran 165. Wrth fwrw ymlaen â hyn, credwn ei bod yn hanfodol bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno ar gael yn rhwydd i'r Archwilydd Cyffredinol a

disgwyliwn yn arbennig i'r Cynulliad a Chyngor Sir Caerdydd gydweithredu'n llawn â'r Archwilydd Cyffredinol wrth arfer ei hawl i gael mynediad i'r Awdurdod Harbwr.

(viii) Disgwyliwn i swyddogion y Cynulliad gadw llygad barcud ar y gwaith a wneir tuag at y nod o gronni'r dŵr croyw erbyn mis Ebrill 2001.

(ix) Yn y tymor hwy, croesawn fwriad y Cynulliad i sicrhau y rhoddir pwysau priodol ond adeiladol ar Gyngor Sir Caerdydd a'r Awdurdod Harbwr i barhau i roi gwerth am arian.

(x) Roeddem felly'n croesawu'r sicrwydd a roddwyd y bydd y trefniadau ariannu sy'n cael eu rhoi ar waith ar y cyd â Chyngor Sir Caerdydd yn golygu y gall y Cynulliad fod yn gwbl sicr mai i dalu costau'n ymwneud â'r Morglawdd a'r Bae yn unig y defnyddir yr arian a roddir i'r Cyngor.

(xi) Roeddem yn croesawu'r gydnabyddiaeth a gafwyd y byddai o fudd mawr i'r Cynulliad geisio lleihau costau net rhedeg y Bae. Roeddem hefyd yn croesawu'r sicrwydd a gawsom bod swyddogion yn mynd ati'n adeiladol yn eu trafodaethau â Chyngor Sir Caerdydd i gytuno ar ffyrdd o greu cymaint o refeniw ag y bo modd.

(xii) Croesawn y sicrwydd y rhoddir blaenoriaeth uchel i iechyd a diogelwch.

(xiii) Bydd yn ddiddorol cael gwybod am ganlyniad ymdrech y Cyngor Sir i brynu offer awyru ac a fydd y trefniadau a roddwyd ar waith yn sgil yr ymdrech honno'n rhoi i ni gyfundrefn gost effeithiol ar gyfer ansawdd dŵr sy'n bodloni'r gofynion statudol.

**Crynodeb o'r argymhellion**

49. Nodir isod ein prif argymhellion.

(i) Argymhellwn y dylai'r Cynulliad roi blaenoriaeth i gomisiynu arfarniad economaidd o ddatblygiadau ym Mae Caerdydd, gan gynnwys effaith y Morglawdd a'r llyn dŵr croyw, gan ddefnyddio'r gwaith a wnaethpwyd eisoes gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd lle bo hynny'n briodol.

(ii) Cymeradwywn y gwersi a ddysgwyd hyd yma yn sgil y prosiect i adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw ac argymhellwn y dylai'r Cynulliad ystyried y gwersi hynny wrth wneud trefniadau rheoli ar gyfer prosiectau eraill y buddsoddir cryn dipyn o arian cyhoeddus ynddynt.

(iii) Wrth i'r Cynulliad, yng ngoleuni profiad, feddwl fwyfwy am natur gyffredinol y trefniadau rheoli a roddwyd ar waith ar gyfer y Morglawdd a'r Bae, argymhellwn y dylid parhau i ganolbwyntio ar hyn yn strwythur rheoli'r Cynulliad. Argymhellwn hefyd na ddylai'r Cynulliad ddiystyru dewis cyfundrefn reoli wahanol rywdro yn y dyfodol, megis rheoli'r Bae fel prosiect Menter Cyllid Preifat.

(iv) Argymhellwn y dylai'r Cynulliad fynd ati i annog Cyngor Sir Caerdydd i ddatblygu mentrau penodol i greu refeniw ychwanegol o Fae Caerdydd.

(v) O ystyried maint a natur y gofynion amgylcheddol a'r rhwymedigaethau a allai ddod yn sgil adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw, argymhellwn y dylai swyddogion y Cynulliad barhau i ddatblygu a gweithredu dulliau rheoli risg yn effeithiol er mwyn sicrhau y bydd cyn lleied ag y bo modd o alw annisgwyl am arian cyhoeddus.

**Casgliad**

50. Bu adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd yn brosiect o gryn bwys a bu pwysau gwleidyddol a chyhoeddus mawr o'i herwydd. Er ein bod yn cydnabod camp ei gyflawni, mae sawl effaith nad yw wedi ei hasesu na'i theimlo eto. Denodd y Morglawdd gryn dipyn o fuddsoddi a datblygiadau eraill i ardal De Caerdydd, ond ni ddylid anghofio y gallai fod rhagor o effeithiau eto ar yr ardal a fydd yn anos i'w rhagweld ac a fydd yn llai manteisiol i'r bobl hynny sy'n byw gerllaw Bae Caerdydd, yn ogystal ag i fywyd gwyllt De Cymru. Bydd gan y Pwyllgor Archwilio ddiddordeb mawr yn y dyfodol mewn materion megis cronni'r llyn dŵr croyw, yr effaith ar dai yn yr ardal, swyddogaeth a pherfformiad yr Awdurdod Harbwr, cwblhau Gwarchodfa Gwlyptir Gwent a'r dulliau rheoli a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn prosiectau cyffelyb yn y dyfodol.

## Atodiad A

Ceir cofnod dwyieithog o drafodion y pwyllgorau yn fersiwn Saesneg yr adroddiad (Atodiad A)

## Atodiad B

Llythyr oddiwrth John Shortridge Ysgrifenydd Parhaol
Dyddiad: 12 Awst 2000
Nid oes cyfieithiad ar gael.  Cyfeirwch at y fersiwn caled Saesneg os gwelwch yn dda.

## Atodiad C

Llythyr oddiwrth Roger Thomas Cyfarwyddwr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Dyddiad: 11 Awst 2000
Nid oes cyfieithiad ar gael. Cyfeirwch at y fersiwn caled Saesneg os gwelwch yn dda.

**Atodiad Ch**

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO

*Mae pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio'n gywir ac yn drylwyr*. Yn fras, rôl y Pwyllgor Archwilio fydd yw ymchwilio i'r adroddiadau ar gyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad wrth ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Rheol Sefydlog 12.

**Dyma aelodaeth y Pwyllgor a benodwyd ar 9 Tachwedd 2000:**
Janet Davies (Plaid Cymru) - Cadeirydd
Alan Cairns (Ceidwadwr)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)
Alison Halford (Llafur)
Ann Jones (Llafur)
Peter Law (Llafur)
Lynne Neagle (Llafur)
Dafydd Wigley (Plaid Cymru)
Kirsty Williams (Democrat Rhyddfrydol)

**Gellir cael gwybodaeth bellach am y Pwyllgor gan:**

Russell Keith
Clerc y Pwyllgor Archwilio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 02920 898155
E-bost: audit.comm@wales.gsi.gov.uk